# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Beverley Hopkins | Adran Etholiadol: | Glandŵr |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais 4 cymhorthfa bob mis yn y ward. Euthum i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) y 3 ardal heddlu'n rheolaidd. Yn ogystal ag aelod arall y ward, roeddem yn mynd am dro yn y ward yn rheolaidd ac fe wnaethom gynnal cyfarfodydd i drafod materion y ward.

Fe wnaethom weithio gyda'r ddau grŵp cyfeillion parc sydd gennym yn y ward a'u cefnogi.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 6 | / | 12 | 50 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 18 | 83 | % |
| **CYFFREDINOL** | **21** | **/** | **30** | 70 | **%** |
| | | | | | |
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 9 | / | 12 | 75 | % |
| **CYFFREDINOL** | **9** | **/** | **12** | 75 | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn yn aelod o'r cyfarfodydd canlynol ac roeddwn yn mynd iddynt yn rheolaidd:

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (C.Y.S.A.G.)
Canolfan Gymunedol yr Hafod
Cyrff Llywodraethu'r Hafod a Phlasmarl
Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y De)
Cyfarfodydd yr Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT)
Cyfarfodydd cyfeillion parc

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi bod yn rhan sylweddol o'r cyfarfodydd niferus ynghylch Ffordd Ddosbarthu hirddisgwyliedig y Morfa.

Gweithiais gyda Llywodraeth Cymru i agor lleoliad Dechrau'n Deg mawr ei angen yn Ysgol Gynradd Plasmarl.

Cwrddais â'r Tîm Rheoli yn Stadiwm Liberty i geisio datrys y materion parcio niferus yn y ward.

Gweithiais gyda Chyfeillion Parc yr Hafod i helpu i sefydlu'r ardd gymunedol.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Mae gennyf sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i wrando ar f'etholwyr i geisio datrys problemau sydd ganddynt wrth iddynt godi. Rwy'n achub ar gynifer o gyfleoedd ag y gallaf i gael mynediad i hyfforddiant. Dangosir isod y cyrsiau rwyf wedi mynd iddynt eleni:

09/02/2016 - Diogelu Pobl Ddiamddiffyn
25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
29/10/2015 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Gall etholwyr gysylltu â fi ynghylch cwynion neu broblemau ar unrhyw adeg, nid mewn cymorthfeydd yn unig.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, ymgymerais â llawer o ddyletswyddau dinesig fel Dirprwy Arglwydd Faeres.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 12.04.16 |